**TRIP MERCHED GWAELOD-Y-GARTH**



Ar fore Mawrth Mai'r 15fed cychwynnodd bws gyda phedair ar ddeg o ferched prydferth ar daith i Aberhonddu ar gyfer ymweld â'r Eglwys Gadeiriol a hefyd Capel Plough (I ddweud y gwir, roedd pymtheg ohonom ond roedd Marian Evans yn dod tu ôl i ni yn ei char ei hun gan ei bod yn mynd ymlaen i Dregaron). Roeddem wedi ymgasglu'n brydlon am 9.30 y bore ar bwys y senotaff yn Radyr. Dyma oedd y diweddglo ar ein gweithgareddau am y flwyddyn.

Dafydd Jones oedd yn gyrru'r bws — un cyfforddus lawn — ac roedd yn garedig iawn yn cludo ni heb godi tâl o gwbl, ond yn hytrach, gwneud cyfraniad i Eglwys Bethlehem. Diolch o galon iddo.

Ymhen rhyw awr roeddem wedi cyrraedd yr Eglwys Gadeiriol a rhaid oedd aros yn y lle cyntaf i gael disgled o goffi Yn ffodus awn roedd caffi wrth ymyl yr eglwys a dyma ni' i gyd yn trotian mewn un ar ôl y llall. Wedyn ymlaen i gael tipyn o hanes yr Eglwys. Codwyd hi yn y lle cyntaf i fod yn Fynachdy Benidictine tua'r flwyddyn 1095. Erbyn hyn y rhan hynaf o'r Eglwys yw'r allor ac roeddent yn adnewyddu'r rhan yma o'r Eglwys tra roeddem ni yno. Mae capel tu mewn i'r adeilad wedi ei nodi i grefftwyr yr ardal fel cryddion, seiri a theilwriaid.

Ar ôl gadael yr Eglwys Gadeiriol aeth y bws a ni i mewn i dref Aberhonddu i weld Capel Plough. Mae'n debyg mai yn yr ystafell hir yn nhŷ tafarn o'r enw'r Plough y dechreuodd yr achos, fel llawer o achosion eraill o gwmpas Cymru. Daeth Parch Herbert Hughes i siarad â ni am hanes y Capel. Mae'r Parch Herbert Hughes wedi ysgrifennu sawl llyfr — un "Mae diwedd y byd yma" am hanes Mynydd Epynt yn ystod y rhyfel ac hefyd fe ysgrifennodd y llyfr am Hywel Harris yn dwyn y teitl "Gwr Duw a thraed o glai". Mae'r llyfr hwn wedi ei ddewis fel un o ddeg llyfr gorau'r flwyddyn.

Roedd J D Vernon Lewis yn aelod yn y capel ac fe ysgrifennodd yr emyn "Saif ein gobaith yn yr Iesu" yn 1957, sef hanner can mlynedd yn ôl. Fe wnaeth drosi "Mawl fo i'r Arglwydd, "Gwawr wedi hirnos" a "Tyred di Emaniwel" i'r Gymraeg.



Mae Capel Plough yn hardd iawn a gwaith coed arbennig iawn y tu mewn. Cynhelir Cymanfa Ganu yno yn ystod yr wythnos Jazz yn Aberhonddu. Mae menywod y capel yn addurno'r capel yn hardd lawn yn ystod yr wythnos Jazz ac y mae pobl yn dod am filltiroedd i weld y blodau.

Erbyn hyn mae na saith o gapeli o dan ofal Parch Michael Hodgson. Mae'r hen drefn yn dod yn ôl.

Ar ôl ymweld â'r capel roedd cyfle i ni gael cinio a chrwydro o amgylch i wneud ychydig o siopa.

Daeth Dafydd i'n codi ni yn y dref am bedwar o'r gloch y prynhawn a chyrhaeddom yn ôl ar bwys y senotaff am bump.

Diwrnod diddorol lawn. Diolch i bawb a drefnodd y trip a gwneud y dydd mor llwyddiannus. *Ann Williams*

***Anfonwn ein cofion at: Mrs Eluned Hughes, Mr Dewi Bonner ac wrth gwrs Y Parch T.J. Davies – tri rydyn ni wedi gweld eu colli o'r oedfaon ers tro oherwydd gwaeledd. Wrth gyhoeddi'r rhifyn hwn, mae "T J" yn Ysbyty Llandochau.***

*Crynodeb o newyddion am aelodau a gweithgareddau capel Bethlehem Gwaelod-y-Garth. Bwletin llai - dyna'r patrwm newydd!*

Dechrau Haf 2007

# Newyddion Bethlehem

**Mae yna bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers i'n Gweinidog ar y pryd, y Parchedig Gareth Rowlands, ein hysbysu ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i'w swyddogaeth ar ddiwedd mis Awst y llynedd.**

***Yma cyhoeddwn gywasgiad o erthygl gan Rhodri Gwyn-Jones ymddangosodd yn ddiweddar yn Y Tyst am sefyllfa bresennol yr eglwys***

Wedi chwe mlynedd wrth y llyw roedd Gareth am newid cyfeiriad ac roedd cynulleidfa Bethlehem yn parchu'r dymuniad hwn gan ddiolch iddo am ei arweiniad a'i gyfraniad yn y parthau dros gyfnod ei weinidogaeth. Canlyniad hyn wrth reswm oedd gadael eglwys heb weinidog, praidd heb fugail ac aelodaeth frwdfrydig yn dyheu i gwmpasu cyfnod newydd yn eu hanes. Mae'r ddiadell o ddiaconiaid sydd yn yr eglwys wedi prysuro i sicrhau parhad yn yr oedfaon a'r gofal bugeilio a'r ochr fusnes. Mae clwstwr o'r aelodaeth hefyd wedi eu hethol i fod yn rhan o'r Pwyllgor Bugeiliol sydd wedi ei anrhydeddu â'r dasg o hyrwyddo gweinidogaeth bellach i'r eglwys – tasg nid bychan fel y gwyr sawl eglwys sydd yn yr un sefyllfa a ni. Cytunwyd mai trefn gweinidogaeth rhan-amser fyddai'n gweddu o hyn allan, er bod yna beth rhyddid i ddehongli hynny ym mha bynnag fodd posibl.

Ond her ydi her ! Yn y cyfamser mae cyfle wedi bod i'r eglwys edrych ar ei bogel, gan holi ei hun am y parodrwydd i fabwysiadu amrywiaeth yn nhrefn y gwasanaethau ac, yn fwy pellgyrhaeddol efallai, yr ymrwymiad yn ein mysg i ddyfodol yr eglwys a'i gweithgareddau. Cafwyd ymateb rhagorol hyd yma, a'r gwasanaethau ar y Gwyliau eglwysig gwahanol wedi bod yn batrwm i'w ryfeddu atynt o du plant yr Ysgol Sul, yr ieuenctid (criw CAIB) a'r rhai hŷn.

Mae cefnogaeth gweinidogion a phregethwyr eraill y dalgylch hefyd wedi bod yn glodwiw a mawr ein diolch iddynt i gyd am eu parodrwydd i'r roi o'u gwasanaeth a'u cynhorthwy mewn ffyrdd ymarferol iawn.

Symud 'mlaen sydd raid serch hynny ac mae'r chwilota yn mynd rhagddo i weld a oes yna unrhyw un yn barod i dderbyn y cyfrifoldeb o rannu'r arweinyddiaeth ar y cyd a'r diaconiaid a'r gynulleidfa gynnes frwdfrydig sy'n swatio mewn capel destlus yng nghesail y Garth, ar gyrion y brifddinas

Trowch i mewn atom os ydych chi'n digwydd bod yn y cyffiniau ar fore Sul a dim byd pwysicach i'w wneud er mwyn i chwithau hefyd gael teimlo gwres y croeso a theimlo swmp a sylwedd y teuluoedd sy'n aelodau yma. Fentra i na fyddech yn cael eich siomi !

R G-J

**I'ch atgoffa - yn gryno.......**

*Cynhaliwyd Cwrdd Eglwys ym Mis Chwefror. Aelodau'r Pwyllgor Bugeiliol yw Cath Edwards, Marian Evans, Eirian Samuel, Carol Davies, Judith Evans, Rhodri Gwynn-Jones a chyfetholwyd Dafydd Huws yn ddiweddarach. Canolbwyntiwyd i ddechrau ar geisio creu proffil o'r Eglwys, un y gellid yn ei dro ei ddefnyddio mewn trafodaeth â darpar weinidog. Cred y Pwyllgor Bugeiliol y dylai'r Eglwys ymrwymo ei hun i'r canlynol:-*

a) Parodrwydd i gymeryd cyfrifoldeb am batrwm addoli amrywiol yn ystod y flwyddyn.
b) Targedu oedfaon penodol er sicrhau presenoldeb trwch helaeth yr aelodau bryd hynny
c) Cynnal patrwm cyson o oedfaon ar gyfer plant a ieuenctid

*Law yn llaw a hyn cred y Pwyllgor Bugeiliol y gellir mynd ar ofyn darpar weinidog rhan amser a fyddai yn barod i :-*

- gynnal o leiaf un oedfa bregethu y mis
- fugeilio'r aelodau
- ysgogi, hybu, hwyluso ac arwain dyheadau'r aelodaeth fel y mynegwyd uchod

## Suliau'r Haf:

**Diaconiaid Bethlehem:**
Carol Davies Jones, Delwyn Siôn, Dylan John, Eurfryn Thomas (trys), Gwenno Huws, Ifan Roberts, Joy Glyn, June Huws, Marian Evans, Nerys Williams, Peredur Evans(trys), Peter Wyn Thomas, Rhodri Gwynn-Jones, Rhys Dafis (ysg), Rhys Powys, Wyn Jones.

MEHEFIN
3 Parch Noel Gibbard (Cymun)
10 Parch Ieuan Davies
17 Parch Eric Jones
24 Parch Owain Llŷr Evans

GORFFENNAF
1 Parch Gareth Reynolds (Cymun)
8 Parch Jill Hayley Harries
15 Gwasanaeth Ardal (aelodau Gorllewin Caerdydd – Rhys a Gwenno'n gofalu)
22 Parch Denzil John (a bedydd Morgan - mab bach Anwen ac Iwan Ellis)
29 Parch R Alun Evans (yng Ngwaelod y Garth)

AWST
5 Parch Eirian Rees (Cymun) (yn Efailisaf)
12 Miss Eurwen Richards (gwas. GyG yn Efailisaf)
19 I'w drefnu (Tabernacl yn Efailisaf)
26 Dan ofal Rhodri G-J (gwas. GyG yn Efailisaf)

MEDI
2 Parch Cynwil Williams (Cymun)
9 Parch Eirian Rees
16 Parch Tom Defis
23 Parch Dewi Lloyd Lewis
30 Parch Lona Roberts

**Cyfnod peintio'r capel**

Bydd **pob** gwasanaeth yn Efail Isaf yn ystod mis Awst tra bydd Bethlehem yn cael ei beintio – ond cofiwch fynychu'r un fath!

**Cydymdeimlwn â'r canlynol gollodd eu hanwyliaid yn ddiweddar:**

Sheila Dafis, Creigiau, wedi colli ei mam yn Llandderfel.
Delyth Evans, Yr Eglwysnewydd, wedi colli ei thad yn Llanarthne.
Stella Jones, Yr Eglwysnewydd, wedi colli ei mam ym Mhenygroes.

### Llongyfarchiadau :

i Catrin Dafydd - drefnodd wasanaeth Ewyllys Da'r Urdd am eleni ac am i'w nofel 'Pili Pala' (sy'n adrodd hanes am ferch ifanc sy'n dod yn ffrindiau gyda gwraig lawer yn hŷn na hi) gyrraedd rhestr hir 'Llyfr y Flwyddyn'.

i blant a ieuenctid Bethlehem fu ar lwyfan yr Urdd yng Nghaerfyrddin ac i aelodau Bethlehem fu'n canu yn yr Eidal â Chor Caerdydd dros y Sulgwyn.

Cwrdd diaconiaid nesaf - nos Lun: Hyd 8

[Anfonwch eich cyfraniadau ar gyfer y bwletin nesaf at Rhys Dafis: Rhys Dafis@aol.com neu Ifan Roberts: tycnau@aol.com ]

## Blwyddyn y Cwrdd Merched



*Dymunwn yn dda i Sara (Evans gynt) o Radur ar ei phriodas â Rhodri Gibson o Benmynydd, Ynys Môn ym Methlehem yn diweddar. Mae Sara'n wyneb cyhoeddus ar ein rhaglenni newyddion a Rhodri'n beiriannydd sifil a syrfewr yng Nghaerdydd.*

Cawson ni flwyddyn amrywiol a bendithiol yn y Cwrdd Merched o dan arweiniad ein llywydd Eirlys Davies.

- Siaradodd Ifan Roberts ar y pwnc 'Tair briodas ac angladd". Sôn yr oedd am ddyn o Sir Fôn yn yr unfed ganrif ar bymtheg a fu farw yn 105 oed yn dad i 43 o blant. Cawson ni wledd o chwerthin yn ei gwmni.

- Testun Mary Wiliam oedd Creiriau Cartre". Siaradodd yn rhwydd a diddorol a chawson ni gyfle i ddwyn atgofion o'r creiriau yn ein cartrefi ni 'slawer dydd.

- Daeth y Parchedig Cynwil Williams aton ni i sôn am ei gyfrol ar Rowan Williams, cyfrol bwysig yn hanes crefydd yng Nghymru. Siaradodd ar "Eiconau mewn crefydd" o fyd celfyddyd ac o blith emynau a'r Beibl.

- Tro Judith Evans oedd hi i sôn am ei bywyd a'i gyrfa. Fe ddysgon ni lawer am waith fferyllydd a hefyd am y gwaith arbennig mae Judith yn ei wneud gyda'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau. Yn ystod y cyfarfod hwn, bu Margaret Davies yn dangos enghreifftiau o'r dillad mae hi'n gwau i blant bach yn yr India. Gwnaeth hi 100 o wisgoedd y llynedd yn unig. Rydyn ni'n falch iawn o gyfraniadau cymdeithasol arbennig nifer o'n haelodau.

- Daeth un o leisiau mwya cyfarwydd Cymru, sef Wyndham Richards, i roi tipyn o hanes ei fywyd. Cawson ni sgwrs hynod ddiddorol llawn diwylliant oedd yn dangos gallu Wyndham i lefaru a dyfynnu'n helaeth o fyd llenyddiaeth Cymru.

- Mr Lyn Thomas, Ystradgynlais (sef brawd Margaret Davies) oedd y siaradwr olaf am eleni. "Cadw Gwenyn" oedd ei destun a dangosodd fôr o wybodaeth am arferion gwenyn a'r broses o gasglu mêl. Bu rhai o'r aelodau yn blasu mel o wahanol wledydd ac, yn ddieithriad, dewiswyd mêl Ystradgynlais yn orau!

Cafodd nifer o ddynion y fraint o ddod i'n plith mewn sawl cyfarfod eleni a braf oedd cael eu cwmni. Ym mhob cyfarfod cawson ni gyfraniadau arbennig iawn o ddarlleniadau a gweddïau. Rydyn ni mor ffodus o'r talent parod sydd gyda ni yn y gymdeithas. Ond yn bennaf rydyn ni mor freintiedig i gael llywydd sy'n trefnu rhaglen gyffroes ar ein cyfer. Er i Eirlys gael blwyddyn anodd oherwydd anhwylusder T.J., mae wedi dal i'n harwain yn ei ffordd unigryw hi. Diolch Eirlys.

Diolchwn am bob cyfraniad a chefnogaeth trwy'r flwyddyn ac estynnwn groeso i unrhyw un sy'n gweld ei ffordd yn glir i ymuno â ni yn y dyfodol. Bydd y cyfarfod nesa ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Hydref am ddau o'r gloch.

*Cath Edwards*

Fel eglwys anfonwn ein dymuniadau a'n cofion hefyd at Gwyneth Williams, Pentyrch, sydd yn gwella ar ôl cael cyfnod o driniaeth.